



MENTER TY'N LLAN

llandwrog

CYNNIG I BRYNU CYFRANDDALIADAU MENTER TY'N LLAN

EBRILL 2021

*YN TY'N LLAN RHAI TYNNU LLWCH
O' I FAR ANNWYL - CYFRANNWCH!*

DYDDIAD CAU: MEHEFIN 11EG, 2021



tynllan.cymru

 [/tynllan](https://www.facebook.com/tynllan)

 [@tynllan](https://twitter.com/tynllan)

Mae Menter Ty'n Llan Cyfyngedig yn Gymdeithas Budd Cymunedol sydd wedi cael ei chreu gan bobl leol i sicrhau a diogelu dyfodol Tafarn Ty'n Llan yn Llandwrog, Gwynedd a'i throï'n ganolbwynt cymunedol gwirioneddol er budd y gymuned leol.

Rydym yn anelu at godi £400,000 o'r Cynnig yma i Brynu Cyfranddaliadau, sy'n agored i'r gymuned ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Fe fyddwn yn defnyddio'r arian a godir, ochr yn ochr â grantiau a benthyciadau rydym yn gobeithio eu cael o ffynonellau eraill, i brynu ac ailagor y dafarn. Amcangyfrifir bod cyfanswm cost y prosiect, gan gynnwys cost prynu'r eiddo a'i ail-ddatblygu'n sylweddol, oddeutu £850,000.

Mae prynu cyfranddaliadau yn eich gwneud chi'n Aelod o'r gymdeithas ac yn rhoi llais i chi ar sut mae'n cael ei rhedeg. Mae gan bob aelod un bleidlais, waeth faint o gyfranddaliadau maen nhw'n eu prynu. Isafswm cyfranddaliad yw £100 a'r uchafswm yw £50,000.

Mae'r ddogfen hon:

- yn disgrifio'r prosiect, a'i fuddion i aelodau ac i'r gymuned
- yn egluro natur y gymdeithas a sut y bydd y cynnig cyfranddaliadau yn gweithio
- yn cynnwys gwybodaeth ar sut i wneud cais am gyfranddaliadau



Dyfernir y Marc Safon Cyfrannau Cymunedol gan yr Uned Cyfrannau Cymunedol i gynigion sy'n cwrdd â safonau arfer da cenedlaethol.

I gael rhagor o wybodaeth am gyfranddaliadau cymunedol, y Marc Safon Cyfrannau Cymunedol a'r Uned Cyfrannau Cymunedol ewch i:

communityshares.org.uk

Y Weledigaeth a'r Gwerthoedd

Ein Hamcan Craidd:

Cyfoethogi bywydau unigolion a'r gymuned trwy ddod â phobl at ei gilydd

Ein Cyfrwng:

Prynu, addasu a chynnal tafarn a bwyty Ty'n Llan fel man cyfarfod sy'n eiddo i'r gymuned

Ein Dulliau Gweithredu:

- Darparu lleoliad ac adnoddau sy'n hyblyg, deniadol a chroesawgar i bob aelod o'r gymuned
- Darparu bwyd, diod a llety o safon ddeniadol am bris teg
- Bod ar gael ar oriau sy'n cyfarfod ag anghenion y gymuned
- Sbarduno gweithgareddau amrywiol sy'n denu pobl i gymryd rhan
- Creu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli
- Cyflogi'n deg
- Creu cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith a meithrin sgiliau
- Hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg
- Parchu'r amgylchedd
- Gwarchod y dreftadaeth bensaerniol
- Rhedeg busnes sy'n effeithiol a chystadleuol

Ein Gwerthoedd:

- *Croesawgar* – cymeriad y lle a'i bobl
- *Breichiau agored* – i bawb yn ddi-wahân
- *Gweithgar a thrylwyr* – ym mhopeth a wnawn
- *Cywir a gonest* – mewn gweithred ac mewn gair
- *Teg* – wrth ymwneud â'n gilydd ac â'r byd

Menter Ty'n Llan

Menter Ty'n Llan Cyfyngedig yw'r Gymdeithas Budd Cymunedol a ffurfiwyd fel y gall pobl Llandwrog a'r gymuned ehangach sicrhau a diogelu dyfodol tafarn Ty'n Llan.

Mae Cymdeithas Budd Cymunedol yn fath arbennig o gorff busnes sy'n eiddo i'r gymuned leol ac yn cael ei rhedeg er ei budd, yn hytrach nag er mwyn elw preifat.

Ein nod yw prynu, ehangu ac ailagor Ty'n Llan fel tafarn, bwyty, caffi a chanolbwynt gweithredol ar gyfer pob math o wasanaethau a gweithgareddau cymunedol.

Mae colli tafarn bentref yn medru cael effaith ddinistriol ar gymunedau, gan gynyddu teimladau o unigrwydd ac arwahanrwydd, yn enwedig mewn pentrefi gwledig fel Llandwrog.

Mae'r pentref yn nodedig o ran ei gymeriad pensaernïol, gyda Thy'n Llan yn sefyll yn ei ganol. Yn ddiwylliannol, mae'r pentref yn ganolfan gref i'r iaith Gymraeg. Bydd gwarchod y naill nodwedd tra'n hyrwyddo'r llall yn amcanion craidd i'r fenter.

Credwn fod Ty'n Llan yn ased cymunedol hanfodol ac y bydd ei werth a'r buddion sydd i'w cael ohono yn cael eu gwarchod orau os bydd Cymdeithas Budd Cymunedol fel ein un ni yn berchen arno ac yn ei redeg.

Mae hwn yn gyfle unigryw i ddod yn berchen ar ran bwysig o dreftadaeth yr ardal. Ond er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, mae angen i ni godi arian.

O'r gymuned leol y daw'r cyllid mwyaf allweddol a gall aelodau'r gymuned a'r cyhoedd ehangach rŵan brynu cyfranddaliadau yn y Gymdeithas er mwyn dod yn aelodau a chael dweud eu dweud ar sut mae'n cael ei rhedeg. Byddwn hefyd yn edrych am gyfleoedd i fanteisio ar grantiau a benthyciadau amrywiol oddi wrth lywodraeth leol a chenedlaethol, ac oddi wrth ymddiriedolaethau annibynnol ac elusennol.

Ein Cymuned

Mae rhedeg Ty'n Llan fel tafarn gymunedol yn gyfle unigryw i Landwrog wella ymhellach bentref sydd eisoes yn gymuned weithgar a chroesawgar.

Mae yna lawer o fuddion yn deillio o wneud hynny, gan gynnwys:

- Darparu gwasanaethau amrywiol, gan gynnwys tafarn, caffi a bwyty, i'r pentref ac i ymwelwyr
- Darparu lle i gyfarfod â ffrindiau a chymdogion
- Hyrwyddo iechyd a lles trwy greu cyfleoedd i ddod â phobl ynghyd
- Cynnig canolbwynt ar gyfer gwybodaeth am ddigwyddiadau cymunedol a materion lleol
- Cynnig cyfleusterau ar gyfer grwpiau diddordeb arbennig o bob math
- Cynorthwyo ein cymuned i wella o Covid-19
- Hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg

- Hyrwyddo twristiaeth a rhoi hwb i'r economi leol
- Cefnogi busnesau lleol a hyrwyddo menter
- Diogelu a gwarchod ein hanes a'n treftadaeth unigryw yng Nghymru trwy adnewyddu a datblygu'r adeilad rhestredig Gradd II hwn
- Hyrwyddo cynaliadwyedd a diogelu'r amgylchedd trwy warchod adeilad hanesyddol mewn ffordd gymwys, a gan sicrhau ei effeithlonrwydd
- Creu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli
- Hyrwyddo hyfforddiant a datblygu sgiliau
- Creu cyfleoedd cyflogaeth i bobl leol
- Hyrwyddo gwaith rhwng cenedlaethau
- Gweithio mewn partneriaeth â'r ysgol leol a'r Gwasanaeth Ieuentid, i gynnwys plant a phobl ifanc leol
- Ysbrydoli eraill i gymryd perchnogaeth dros asedau lleol gwag a diffaith a'u hadfywio

Y Stori Hyd Yn Hyn

Mae'r dafarn wedi bod yn eiddo preifat ac yn cael ei rhedeg gan gyfres o denantiaid, gan gynnwys sawl un sydd wedi defnyddio'r fflat llawr cyntaf i fyw ynddo. Credir bod amryw denantiaid wedi gwneud cynigion dros y blynyddoedd i brynu'r dafarn, ond chafodd rhain mo'u derbyn. Mae'r angen i wario arian ar atgyweirio ac adnewyddu wedi bod yn rhwystr i ddarpar denantiaid.

Caeodd Ty'n Llan ym mis Rhagfyr 2017 ac roedd diffyg man cyfarfod yn y pentref yn cael ei deimlo'n gryf.

Bu farw'r perchennog yn 2019 ac awgrymodd sgysiau anffurfiol o fewn y gymuned fod yna awydd cryf i 'wneud rhywbeth' i achub y dafarn. Roedd gan nifer o'r pentrefwyr brofiad proffesiynol o weithio ym maes datblygu cymunedol a menter ac roeddent yn gyfarwydd ag egwyddorion a modelau ar gyfer mentrau sy'n eiddo i'r gymuned.

Ym mis Chwefror 2021, cafwyd ar ddeall bod ysgutorion ystâd y perchennog yn bwriadu rhoi Ty'n Llan ar werth, ochr yn ochr ag asedau eraill. Aeth nifer o'r rhai a oedd wedi bod yn trafod syniadau ati'n gyflym i alw cyfarfod cymunedol ar Zoom, ychydig ddyddiau cyn i'r gwerthiant gael ei hysbysebu.

Roedd yr ymateb yn gadarnhaol iawn gyda dros 100 o bobl yn bresennol ac roedd yna gefnogaeth glir a chryf i'r syniad o sefydlu Cymdeithas Budd Cymunedol i brynu a rhedeg y dafarn er budd y gymuned.

O ystyried yr angen i weithredu'n gyflym cytunwyd mai'r camau cyntaf oedd ceisio sicrhau digon o addewidion o fenthyciadau tymor byr i ganiatáu gwneud cynnig am yr eiddo, i gwblhau ffurfio a chofrestru'r Gymdeithas, ac yna maes o law i estyn gwahoddiad i fuddsoddi mewn cyfranddaliadau yn y fenter.

Ddau ddiwrnod yn ddiweddarach, rhoddwyd Ty'n Llan ar y farchnad gyda phris gofyn o £350,000.

Y swm yma ddaeth i fod yn darged ar gyfer yr ymarfer i godi benthyciadau tymor byr ac o fewn llai nag wythnos derbyniwyd addewidion am symiau ymhell dros y targed.

Yn ymarferol, mae'r benthyciadau yma'n tanysgrifennu ein cynnig ar gyfer yr eiddo.

Cafodd yr addewidion llafar cychwynnol eu cadarnhau yn ysgrifenedig ac mae'r asiant gwerthu wedi eu derbyn fel prawf o allu'r Gymdeithas i ariannu ei chynnig. Bwriedir i'r benthyciadau fod am o leiaf chwe mis hyd at uchafswm o 12 mis. Mae'r eiddo ei hun yn sicrwydd ar eu cyfer ar sail pro rata a byddant yn derbyn llog o 2%.

Aeth syrfëwr lleol ati i gynnal arolwg o'r eiddo ar unwaith ac yn ei adroddiad fe nododd, o ystyried yr angen am rywfaint o adnewyddu, fod ei werth, yn ei farn ef, rhwng £ 270,000 a £330,000.

Aethpwyd ati i wneud cynnig cyntaf o £ 300,000 yn enw'r Gymdeithas. Cafodd hwn ei wrthod ac felly hefyd yr ail gynnig o £ 310,000. Ond ar y 10fed o Fawrth 2021, derbyniwyd trydydd cynnig o £325,000, yn amodol ar gytundeb, a thynnwyd yr eiddo oddi ar y farchnad. Mae'r Gymdeithas wedi cyfarwyddo cyfreithwyr, sydd bellach yn gwneud y chwiliadau a'r gwaith paratoi angenrheidiol cyn cwblhau'r pryniant.

Mae'r Gymdeithas yn awyddus i gau'r cynnig yma am gyfranddaliadau cyn y dyddiad y bydd yn rhaid talu am yr eiddo a chwblhau'r pryniant. Bydd hyn yn sicrhau y gellir talu'r ganran fwyaf bosibl o gost y pryniant allan o arian cyfranddaliadau, yn hytrach na thrwy fenthyciadau.

Yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus cyntaf, cylchredwyd holiadur a derbyniwyd mwy na 200 o ymatebion. Mae'r ymatebion wedi rhoi arwydd defnyddiol iawn o beth yw blaenoriaethau'r gymuned ar gyfer Ty'n Llan, a pha wasanaethau sydd fwyaf tebygol o fod â galw amdanynt. Gellir gweld crynodeb o'r ymatebion ar y wefan – tynllan.cymru.

Cymerwyd cyngor ynghylch dogfennaeth gan Sefydliad Plunkett a Chanolfan Cydweithredol Cymru, ac mae'r ddogfen Cynnig am Gyfranddaliadau wedi'i hachredu o dan y Nod Safon ar gyfer Cyfrannau Cymunedol.

Y Pwyllgor Rheoli Cychwynnol

Cynhaliwyd ail gyfarfod cyhoeddus ar y 9fed o Fawrth 2021 ac ers hynny mae'r Pwyllgor Rheoli Cychwynnol wedi'i ffurfio o blith y rhai a ddangosodd ddiddordeb mewn bod yn aelodau.

Mae'r Pwyllgor hwn yn cynnwys 14 o bobl, ac yn ei gyfarfod cyntaf cytunwyd ar fanylion y Cynllun Busnes a'r Cynnig Cyfranddaliadau hwn.

Dyma aelodau'r Pwyllgor:

Caryl Elin Lewis (Cadeirydd) - Perchennog/Cyfarwyddwr Cwmni CELyn. Cadeirydd, Llywodraethwyr Ysgol Llandwrog, Pwyllgor Pentref Llandwrog ac aelod sefydlu Merched Mentrus Môn a Gwynedd. Blaenorol- uwch swyddi gyda Chyngor Gwynedd, Cyfarwyddwr Mudiad Meithrin Cymru, ymgyngorydd i Sefydliad Gofal Cyhoeddus ac Iechyd Meddwl Cymru.

Catrin Huws (Is-Gadeirydd) - Rheolwr cynhyrchu rhaglenni ac arlein cyfrwng Cymraeg gyda'r BBC, yn cydlynu gwahanol agweddau ar brosiectau darlledu cenedlaethol.

Grant Peisley (Ysgrifennydd) - Cyfarwyddwr sefydlu Datblygiadau Egni Gwledig (DEG), Anglesey and Gwynedd Recovery Organisation (AGRO), YnNi Teg, Ynni Newydd, Ynni Lleu ac YnNi Llyn. Cyfarwyddwr Ynni Cymunedol Cymru. Cynghorydd gyda Sefydliad Plunkett.

Wyn Roberts (Cyfarwyddwr Marchnata) - Perchennog / Cyfarwyddwr AQUA Marketing Ltd gyda phrofiad eang o farchnata digidol a'r sector croeso. Cyfarwyddwr Galeri Caernarfon Cyf, Hwb Eryri Cyf, Datblygiadau Egni Gwledig (DEG), a Cooliture Cyf.

Huw Jones (Trysorydd) - Cadeirydd Portmeirion Cyf ac Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn. Blaenorol – Cadeirydd a Phrif Weithredwr S4C, cyd-sylfaenydd Sain, Barcud a Teledu'r Tir Glas, cyn Ymddiriedolwr yr RSPB a'r RTS ac is-Gadeirydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru.

Carys Aaron - Ymddiriedolwr Sistema Cymru – Codi'r To a chyfarwyddwr hostel a bwyty Adra LodgeCyf. Blaenorol – Cyfarwyddwr a Rheolwr Busnes Ffilmiau'r Nant Cyf; darlithydd yn Ysgol y Gyfraith Bangor; cyn gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Syr Hugh Owen.

Angharad Gwyn - Perchennog-gyfarwyddwr cwmni manwerthu Adra. Arweinydd a chyd-sylfaenydd Clwb Gwawr Llandwrog, cyn-gadeirydd Ffrindiau'r Ysgol a Chylch Ti a Fi. Aelod o Gyngor Coleg Glynllifon a model rôl busnes gyda Syniadau Mawr Cymru.

Dylan Wyn Herbert - Pennaeth Adnoddau a Chynllunio SP Energy Networks; Cynghorydd Cymuned dros Benygroes; Aelod - Pwyllgor Clwb Rygbi Caernarfon, Grwp Cyflogwyr Sgiliau Digidol Gogledd Cymru, Pwyllgor Dyfarnwyr Rygbi Gogledd Cymru a Llysgennad STEM

Ian Kenrick Hughes - Pennaeth Busnes i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ac wedi gweithio mewn llywodraeth leol ers dros 35 o flynyddoedd. Cyn aelod o Lywodraethwyr Ysgol Syr Hugh Owen ac Ysgol Llandwrog.

Bethan Mary Jones - Actores broffesiynol wedi ymgartrefu yn Llandwrog ers 25 mlynedd ac wedi magu 4 o blant. Cyn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Llandwrog. Yn berchen ar fusnes llety hunan arlwydo.

Sion Huw Jones - Athro yn Ysgol Uwchradd Glan Clwyd; rhanberchennog Hairline Inc GC. Wedi byw yn y pentref ar hyd ei oes ac wedi gweld Ty'n Llan yn ffynnu fel plentyn ac oedolyn. Gydag angerdd a chyffro i weld Ty'n Llan yn galon y pentref unwaith eto.

Alun Prytherch - Prif Ddadansoddwr Busnes gyda VISA yn diffinio sut bydd systemau-taliadau cenhedlaeth-nesaf y cwmni'n gweithio. Blaenorol - Ymgynghorydd Busnes i Barclays, Bank of America, Lloyds a'r Bathdy Brenhinol; Ystadegydd a Rhagolygydd Manwerthu i Sainsbury's.

Iwan Williams - Pennaeth Cerdd Ysgol Glan y Môr Pwllheli, beirniad ac arweinydd corawl. Yn frwdfrydig dros ddiwylliant Cymreig ac ysbryd cymunedol.

Sioned Williams - Pennaeth Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd gyda chyfrifoldeb am ddatblygu'r economi, twristiaeth, digwyddiadau, rhaglenni adfywio, sgiliau a chyflogaeth. Cyn swyddog cynllunio, ac yn cefnogi mentrau cymdeithasol ers dros 25 mlynedd. Rôl ymgynghorol gyda Grŵp Gweithredol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Bwrdd Parth Menter Eryri.

Cyn-gadeirydd Partneriaeth Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru; Cadeirydd Bwrdd Chwaraeon Gogledd Cymru.

Os bydd aelod o'r Pwyllgor neu o'u teuluoedd agos yn dymuno mynd i berthynas fasnachol â'r Gymdeithas, gofynnir iddynt gamu i lawr o'r Pwyllgor er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau.

Y Cynllun Busnes

Crëwyd cynllun busnes manwl ar gyfer y tair blynedd gyntaf o redeg Ty'n Llan. Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan tynllan.cymru, neu os hoffech gopi papur cysylltwch â'n Trysorydd ar 01286 830640 neu trwy siars@tynllan.cymru.

Rydym wedi seilio'n ffigyrau ar brofiad tafarndai mewn cymunedau tebyg sydd â chyfleusterau o'r un fath â'r rhai rydan ni'n eu hystyried. Rydym hefyd yn derbyn cyngor gan gefnogwyr o fewn y diwydiant lletygarwch. Y nod ydi tyfu'r busnes yn raddol dros amser, gan gynhyrchu elw bychan yn y flwyddyn gyntaf a'i gynyddu wedi hynny.

Bydd yr ymateb i'r cynnig cyfranddaliadau yn hanfodol ar gyfer diffinio maint y prosiect y byddwn yn gallu ei gyflawni.

Mae'n gweledigaeth ar gyfer Ty'n Llan yn seiliedig ar ailddatblygu'r prif adeilad a'r adeiladau eraill yn sylweddol er mwyn darparu ar gyfer y canlynol:

- Bar, cegin, llefydd bwyta a thu mewn yr adeilad wedi'u moderneiddio a'u hadnewyddu'n llwyr, i ganiatáu'r defnydd mwyaf effeithiol o'r gofod
- Estyniad cefn gyda ffenestri'n edrych i'r de tua'r Eifl, i'w ddefnyddio'n bennaf fel ardal fwyta a chaffi
- Tair ystafell wely en suite gyda chornel cegin ar y llawr cyntaf, a phedwaredd ystafell wely wedi'i lleoli mewn adeilad allanol ar y llawr gwaelod
- Ystafell aml bwrpas y gellir ei llogi ar delerau cystadleuol gan gymdeithasau a digwyddiadau preifat
- Gardd gwrw ddeniadol sy'n addas i'r teulu cyfan, gyda chegin allanol
- Gofod parcio wedi ei ailgynllunio a'i darmacio, gyda lle i'r anabl a phwynt gwefru ar gyfer ceir trydan

Fe fydd rheolwr yn cael ei benodi/phenodi maes o law i redeg y bar, caffi, bwyty a'r llety. Byddwn yn gwneud cais am grant i ganiatáu penodi Swyddog Datblygu a fydd yn canolbwyntio ar gysylltu â'r gymuned, trefnu digwyddiadau a gweithgareddau rheolaidd, creu cysylltiadau gyda rhanddeiliaid amrywiol a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn rhagweithiol. Bydd y Swyddog Datblygu yn gyfrifol am recriwtio gwirfoddolwyr, cyfathrebu a marchnata ac am geisiadau grant i ariannu unrhyw waith datblygu pellach.

Dyma'r targedau masnachu ariannol allweddol am y tair blynedd gyntaf (£):

	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3
Incwm	304,891	334,397	359,903
Gwariant	287,859	301,241	321,028
Elw (colled) heb ddibrisiant	17,032	33,156	38,875

Mae'r Cynllun Busnes yn rhagdybio y bydd ein hymdrechion i godi arian, trwy gyfuniad o werthu cyfranddaliadau, ennill grantiau, cyhoeddi benthyciadau, a gweithgareddau codi arian eraill, yn llwyddiannus.

Os na fyddan nhw, bydd y cynllun yn cael ei dorri nôl, a bydd elfennau unigol o'r datblygiad sy'n cael ei ddisgrifio yma yn cael eu dileu neu eu gohirio nes y bydd cyllid ar gael. Ar adeg priodol, a chyn mynd i wario'n sylweddol (ag eithrio prynu'r adeilad ei hun), fe fydd yna gynllun terfynol, wedi'i seilio ar y cyllid sydd wedi'i sicrhau, yn cael ei roi gerbron yr aelodau i'w gymeradwyo.

Os na fydd hi'n bosibl gwireddu dim o'r datblygiadau sy'n cael eu rhestru uchod, mae'r Pwyllgor Rheoli'n hyderus y byddai trwsio angenrheidiol ac ail-addurno'r adeilad fel ag y mae, gyda'r gwaith yn cael ei wneud gan wirfoddolwyr ac yna'n cael ei staffio'n rhannol ganddynt, yn caniatáu i'r dafarn ail-agor. Rydym wedi modelu cynllun o'r math. Nid yw hwn, fodd bynnag, yn adlewyrchu hyd a lled gweledigaeth Menter Ty'n Llan a dylid ei ystyried fel cynllun wrth gefn yn unig.

Bydd unrhyw elw a gynhyrchir o fasnachu yn cael ei ddefnyddio i dalu am y canlynol:

- Unrhyw rwymedigaethau treth gorfforaeth
- Llog ar fenthyciadau
- Ad-dalu benthyciadau
- Cynnal a chadw'r adeilad
- Gwella a datblygu'r cyfleusterau
- Llog ar gyfalaf cyfranddaliadau
- Hwyluso prynu cyfranddaliadau yn ôl o bryd i'w gilydd

Er mwyn bod yn ofalus, byddwn yn anelu at adeiladu cronfa wrth gefn resymol ar gyfer costau annisgwyl.

Os na fydd y Gymdeithas yn gallu cwblhau prynu'r Eiddo ac os nad yw'r aelodau wedi cymeradwyo unrhyw gynllun amgen, fe fydd cronfeydd cyfranddalwyr yn cael eu had-dalu iddynt, llai unrhyw gostau gweinyddol fydd wedi codi, a bydd cynnig yn cael ei wneud i Gyfarfod Cyffredinol i ddod â'r Gymdeithas i ben.

Sut y bydd ein Cwmni Er Budd Cymunedol yn Gweithio

Nid prynu tafarn yw'r unig beth dan sylw fan hyn - mae'n ymwneud yn bennaf â helpu i gynnal y gymuned. Bydd yr enillion ariannol yn gyfyng ond efallai y byddwch yn ennill llog ac fe fydd eich atebolrwydd yn gyfyngedig. Efallai y gallwch hefyd arbed treth trwy fuddsoddi.

Un aelod, un bleidlais

Mae'n rheol allweddol fod gan bob Aelod un bleidlais, waeth faint o gyfranddaliadau y maen' nhw'n berchen arnynt.

Isafswm cyfranddaliad yw 1 gyfran. Mae i bob cyfran werth o £100. Uchafswm y cyfranddaliadau y gellir eu dal yw 500. Rhaid i aelodau fod dros 16 oed a rhaid talu am gyfranddaliadau yn llawn wrth wneud cais.

Rheolau a Llywodraethiant

Mae'r Gymdeithas wedi mabwysiadu y Rheolau enghreifftiol ar gyfer Cymdeithasau Budd Cymunedol a luniwyd gan Sefydliad Plunkett. Gellir gweld copi ar ein gwefan.

Cyfrifoldeb y Pwyllgor Rheoli fydd rhedeg y fenter o ddydd i ddydd, ac aelodau'r Pwyllgor fydd Cyfarwyddwyr cyfreithiol y Gymdeithas. Aelodau'r Gymdeithas fydd yn penodi aelodau'r Pwyllgor Rheoli ac yn cymeradwyo polisiau talu llog ar gyfranddaliadau ac ailbrynu cyfranddaliadau, a hynny yn y Cyfarfodydd Blynyddol.

Bydd aelodau etholedig y Pwyllgor Rheoli yn dal eu swyddi am gyfnod o dair blynedd. Bydd yr aelodau hynny sy'n ffurfio'r Pwyllgor Rheoli Cychwynnol i gyd yn ymddeol yn y CCB cyntaf yn unol â Rheolau'r Gymdeithas ond gallant gynnig eu hunain i'w haillethol. Wedi hynny, bydd aelodau'r Pwyllgor Rheoli yn ymddeol yn raddol dros y tair blynedd ganlynol yn unol â Rheolau'r Gymdeithas. Bydd holl aelodau newydd y Pwyllgor Rheoli yn cael eu hethol gan aelodau'r Gymdeithas. Bydd gan bob aelod hawl i fynychu'r CCB a sefyll i'w h/ethol i'r Pwyllgor Rheoli.

Yn ogystal â'r Pwyllgor Rheoli fe fydd yna groeso i wirfoddolwyr ddod at ei gilydd i roi'r fenter ar ei thraed ac i helpu gyda'r gwaith o'i chynnal. Fe fydd yna grwpiau gwahanol yn canolbwyntio ar Fusnes a Chyllid, yr Adeiladau, Bwyd a Diod, yr Ardd, Gweithgareddau a Marchnata.

Taliadau llog

Unwaith y byddwn wedi cwblhau tair blynedd gyflawn o fasnachu, ac os yw'r busnes yn rhedeg yn llwyddiannus, rydym yn gobeithio talu llog blynyddol ar gyfranddaliadau aelodau o oddeutu 2%. Pob blwyddyn bydd y Pwyllgor Rheoli yn cyflwyno argymhelliad ynglŷn â thaliadau llog ar gyfranddaliadau i'w gymeradwyo gan Gyfarfod Blynyddol yr Aelodau.

Ailbrynu Cyfranddaliadau

Ni fydd yn bosibl gwerthu na throsglwyddo eich cyfranddaliadau, ag eithrio ar farwolaeth neu fethdaliad. Yr unig ffordd o gael gwerth eich buddsoddiad yn ôl fydd trwy wneud cais i'r Gymdeithas ei hun eu prynu nôl am eu gwerth gwreiddiol.

Mae rheolau'r Gymdeithas yn caniatáu'r posibilrwydd o dynnu cyfalaf eich cyfranddaliadau allan ar ôl tair blynedd. Dim ond o'r elw y bydd y Gymdeithas yn ei wneud wrth fasnachu, neu wrth werthu cyfranddaliadau newydd, y gellir gwneud hynny. Bydd angen i chi roi o leiaf dri mis o rybudd o'ch dymuniad i dynnu'n ôl. Nid ydym yn rhagweld y gallwn ganiatáu tynnu arian yn ôl cyn blwyddyn 5. Pan fydd yn bosibl ystyried ailbrynu cyfranddaliadau, bydd y Pwyllgor yn nodi meini prawf ac uchafsymiau blynyddol priodol. Gall y Pwyllgor benderfynu peidio â chytuno i ailbrynu os yw hynny'n groes i fuddiannau tymor hir y Gymdeithas, yr angen i gynnal cronfeydd wrth gefn digonol, a'r ymrwymiad i'r gymuned.

Clo Asedau

Mae Rheolau'r Gymdeithas yn cynnwys clo asedau sy'n creu rhwymedigaeth gyfreithiol. Mae hyn yn golygu, ar ôl iddi dalu llog i gyfranddalwyr ac ad-dalu unrhyw gyfalaf sy'n cael ei dynnu allan, fod yn rhaid i unrhyw enillion sydd yn weddill gael eu hail-fuddsoddi yn y busnes neu eu defnyddio er budd y gymuned leol neu at achos elusennol neu gymunedol arall. Mae hyn yn golygu, pe bai'r Gymdeithas yn cau ond bod yr adeilad wedi cynyddu yn ei werth, y byddai'n bosibl gwerthu'r

asedau a dychwelyd cyfalaf i aelodau hyd at werth y buddsoddiadau gwreiddiol, ond na fyddai'n bosibl dosbarthu unrhyw werth ychwanegol yn y ffordd yma.

Tâl

Ni fydd cyfarwyddwyr ac aelodau yn elwa'n ariannol mewn unrhyw ffordd o weithgareddau'r Gymdeithas, heblaw trwy gymryd rhan yng nghyfranddaliadau a chynigion benthyciad y Gymdeithas.

Rhyddhad Treth Buddsoddi Cymdeithasol (SITR)

Mae'r Gymdeithas wedi derbyn Sicrwydd Ymlaen Llaw gan Gyllid a Thollau EM (CThEM) y bydd buddsoddiadau a wneir trwy'r Cynnig Cyfranddaliadau hwn yn gymwys ar gyfer SITR (gweler hefyd Nodyn IX yn yr Hysbysiad isod).

Bydd y buddsoddwyr hynny sy'n drethdalwyr yn derbyn credyd maes o law gan CThEM o hyd at 30% o'u buddsoddiad (yn ddibynnol ar y gyfradd y maent yn talu treth incwm arni) trwy eu hasesiad treth blyneddol. Mae hyn yn golygu mai dim ond £700 y bydd buddsoddiad o £1,000 yn costio, mewn gwirionedd, i'r buddsoddwr.

Bedwar mis ar ôl dechrau masnachu, sy'n golygu tua diwedd 2021, bydd y Gymdeithas yn cyflwyno hawliad i CThEM fydd yn rhoi manylion am y buddsoddiadau a wnaed gan unigolion. Bydd CThEM (os byddant yn hapus gyda'r ffurflen a gyflwynwyd) yn rhoi llythyr i'r Gymdeithas yn cadarnhau y bydd SITR ar gael, ynghyd â thystysgrif cydymffurfio ar gyfer pob buddsoddwr. Bydd y Gymdeithas yn anfon y dystysgrif hon at y buddsoddwyr a bydd rhaid iddyn nhw wedyn hawlio rhyddhad treth naill ai trwy eu ffurflen dreth flynyddol neu trwy ofyn i CThEM am gôd PAYE newydd.

I fod yn gymwys, rhaid i'r cyfranddaliadau gael eu dal gan fuddsoddwr am o leiaf 3 blynedd. Dylai buddsoddwyr sy'n meddwl buddsoddi ar y cyd ystyried a fyddai yna fanteision treth o fod yn rhoi'r rhan fwyaf o'u buddsoddiad yn enw'r unigolyn sydd yn y sefyllfa orau i gymryd mantais o'r rhyddhad treth sydd ar gael.

Efallai hefyd y bydd eich buddsoddiad yng nghyfranddaliadau'r Gymdeithas yn gymwys i gael rhyddhad busnes o dan reolau treth etifeddiant.

Sut i wneud cais am Gyfranddaliadau

Os ydych chi am ddod yn aelod o Menter Ty'n Llan Cyfyngedig a buddsoddi yn ein menter, cwblhewch y Ffurflen Fuddsoddi unai arlein ar tynllan.cymru neu trwy ei dychwelyd i'r cyfeiriad canlynol: Menter Ty'n Llan, 8 Beddgwenan, Llandwrog, Caernarfon LL54 5LL.

Os y byddwch am wneud cais am gyfranddaliadau yn enw plentyn o dan 16 oed, byddwch yn ymwybodol y bydd y cyfranddaliadau'n cael eu trin fel rhai sydd wedi'u prynu ond heb eu dyroddi, ac fe gânt eu cadw mewn ymddiriedolaeth gan y Gymdeithas hyd nes i'r plentyn gyrraedd llawn oed.

Rhybudd Pwysig

Rhaid i chi ddarllen y pwyntiau canlynol am y cynnig cyfranddaliadau cyn penderfynu a ydych chi'n dymuno cymryd rhan

- I. Pan fyddwch yn ystyried prynu cyfranddaliadau mae'n hanfodol eich bod yn deall mai buddsoddiad yn ein cymuned yw hwn, gyda'r bwriad o greu ased diogel a pharhaol i ni i gyd.
- II. Y bwriad yw adeiladu ar ein seiliau cymdeithasol a helpu i greu cymuned ffyniannus a chynaliadwy. Nid yw'n fuddsoddiad confensiynol ac ni ddylech ddisgwyl enillion ariannol uchel nac uniongyrchol. Mae gwybodaeth lawn wedi'i nodi yn rheolau'r gymdeithas sydd ar gael ar ein gwefan.

Sylwch:

- III. Ni all gwerth cyfranddaliadau gynyddu y tu hwnt i'w gwerth gwreiddiol. Dylech fod yn ymwybodol y gallai gwerth cyfranddaliadau ostwng os yw'r busnes yn aflwyddiannus.
- IV. Fel buddsoddwr mae eich atebolrwydd wedi'i gyfyngu i werth eich cyfranddaliadau. Pe bai'r busnes yn methu, sy'n anhebygol, ni fyddai gennych unrhyw atebolrwydd pellach.
- V. Ar hyn o bryd mae'r Gymdeithas yn bwriadu ystyried talu llog ar gyfranddaliadau ar ôl i'r drydedd flwyddyn o fasnachu gael ei chwblhau a galluogi cyfranddalwyr i dynnu buddsoddiadau yn ôl ar ôl y bumed flwyddyn. Mae rheolau'r Gymdeithas yn caniatáu i daliadau llog gael eu hatal os nad yw perfformiad ariannol y Gymdeithas yn cyfiawnhau taliad o'r fath. Mae rhagamcanion ariannol manwl ar gyfer perfformiad y Gymdeithas wedi'u cynnwys yn y Cynllun Busnes.
- VI. Yr unig ffordd y gall rhywun adennill ei fuddsoddiadau (p'un ai yw hynny'r swm cychwynnol neu unrhyw werth gostyngedig), onibai am daliadau llog neu ad-daliadau cyffredinol, yw trwy roi rhybudd i'r Gymdeithas o ddymuniad i dynnu buddsoddiad yn ôl. Ni all hyn ddigwydd yn ystod y pum mlynedd gyntaf wedi dyddiad cyhoeddiad y cyfranddaliadau hyn.
- VII. Mae'r amodau penodol ar gyfer tynnu'n ôl yn cynnwys:
 - a. Rhaid i arian a dynnir yn ôl gael ei ariannu o wargedion masnachu neu gyfalaf cyfranddaliadau newydd. Maent yn ddewisol, gan fod yn ddarostyngedig i foddhad y Pwyllgor Rheoli bod tynnu'n ôl yn gyson â buddiannau tymor hir y Gymdeithas.
 - b. Mae'r cyfanswm ad-daladwy bob blwyddyn wedi'i gyfyngu i uchafswm o 10% o werth cyfredol y cyfranddaliad.
 - c. Rhaid rhoi rhybudd o dri mis.
- VIII. Bydd yr holl arian a fuddsoddir yn y cynnig cyfranddaliadau yma'n cael ei ddal yng nghyfrif banc Menter Ty'n Llan Cyfyngedig a'i ddefnyddio yn unig at ddibenion prynu tafarn Ty'n Llan, adnewyddu cyfleusterau'r dafarn, cyfalaf gweithio a chostau fydd yn codi wrth lansio a gweinyddu'r Gymdeithas. Os na fydd y pryniant yn mynd rhagddo, ad-delir yr holl gyfraniadau yn net o'r costau fydd wedi codi.
- IX. IX Yn y pen draw, bydd caniatáu Rhyddhad Treth Buddsoddi Cymdeithasol (SITR) yn fater i CThEM. Er bod y Gymdeithas wedi cymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw beth yn y cynnig cyfranddaliadau hwn nac yn y ffordd y bydd y cyllid ddaw i mewn yn cael ei ddefnyddio yn groes i reolau SITR, ac wedi cael sicrwydd ymlaen llaw gan CThEM ar y sail honno, nid yw'n cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw fethiant gan fuddsoddwyr unigol i adennill treth mewn perthynas â'u buddsoddiadau. At hynny, eu cyfrifoldeb unigol hwy fydd sicrhau cywirdeb gwybodaeth am statws treth a fydd wedi'i darparu ganddynt wrth fuddsoddi.
- X. **Mae Menter Ty'n Llan Cyfyngedig wedi'i chofrestru fel cymdeithas gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), ond nid yw'r FCA yn rheoleiddio gwerthu cyfranddaliadau cymunedol. Fel llawer o fuddsoddiadau, mae cyfranddaliadau cymunedol yn agored i risg a gallech golli rhywfaint neu'r cyfan o'r arian rydych yn ei fuddsoddi. Yn wahanol i gyfrifon**

cadw gyda banciau stryd fawr, nid yw'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol yn cynnwys cyfranddaliadau cymunedol, ac nid oes unrhyw hawl i gwyno i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol. Os ydych chi'n ystyried buddsoddi swm sylweddol yna efallai yr hoffech chi ofyn am gyngor ariannol annibynnol cyn gwneud hynny.

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect, ewch i'n gwefan tynllan.cymru neu cysylltwch â ni ar siars@tynllan.cymru

Ffurflen Fuddsoddi

Swm i'w fuddsoddi (isafswm o £100, uchafswm o £50,000 fesul cyfranddaliadau £100)

£ _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

Côd post _____

Rhif ffôn _____

E-bost _____

Ac, os yn prynu ar ran plentyn (dan 16 oed):

Enw llawn y plentyn _____

Dyddiad geni _____

Ticiwch yma os hoffech dderbyn ffurflen Sitr3 i hawlio gostyngiad treth

Dull talu

- Taliad uniongyrchol i'n cyfrif banc (gan ddefnyddio llinell gyntaf eich cyfeiriad fel cyfeirnod)
Menter Ty'n Llan Cyf
Cod didoli 60-83-01
Rhif y cyfrif 20439554
- Siec yn daladwy i 'Menter Ty'n Llan Cyf'

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y Cynnig Cyfranddaliadau llawn a chytunaf i'r canlynol gael eu cadw mewn cronfa ddata electronig: fy enw, cyfeiriad, ffôn, e-bost, nifer y cyfranddaliadau a brynwyd. Defnyddir y wybodaeth yma i gynnal cofrestr o aelodau a chyfranddaliadau fel sy'n ofynnol gan reolau'r Gymdeithas ac ar gyfer cyfathrebu gweithgareddau Menter Ty'n Llan. Bydd y swm a fuddsoddir yn gyfrinachol ac ni fydd unrhyw wybodaeth yn cael ei throsglwyddo i drydydd parti.

Llofnod _____

Enw _____

Dyddiad _____

Anfonwch at: Menter Ty'n Llan Cyf., 8 Bedd Gwenan, Llandwrog, Caernarfon, Gwynedd LL54 5LL

Cyhoeddir derbynebaw trwy e-bost lle bynnag y bo modd i leihau costau gweinyddol. Bydd tystysgrif cyfranddaliad yn cael ei anfon atoch maes o law.